# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDO DROS DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH

## 11EG AWST 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd P. Hughes-Griffiths (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J. Pritchard, Swyddog Adfywio Cymunedol;
S.E. Williams, Cynorthwy-ydd Marchnata a Thwristiaeth;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Ystafell 72A, Neuadd y Sir, Caerfyrddin 10:00am – 10:30am.**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. CYMERADWYO A LLOFNODI HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 17EG GORFFENNAF 2017**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17eg Gorffennaf 2017 yn gofnod cywir.**

**3. CEISIADAU I'R GRONFA CYMORTH DISGWYDDIADAU**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried ceisiadau am gymorth gan y Gronfa Cymorth Digwyddiadau a gafodd eu hasesu ar sail eu cyfraniad at amcanion strategol y Cyngor o ran twristiaeth, cymunedau a'r economi. Darparodd y Swyddog Adfywio Cymunedol a'r Cynorthwy-ydd Marchnata a Thwristiaeth fanylion pellach am bob digwyddiad.

Yn dilyn trafodaeth ynghylch y dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau, gofynnwyd i'r swyddogion gynnal adolygiad o'r dyddiadau cau cyn y flwyddyn ariannol nesaf yn 2018/19.

**PENDERFYNWYD**
**3.1 cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o'r Gronfa Cymorth Digwyddiadau yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol a bennwyd ym meini prawf y gronfa:-**

| **Digwyddiad** | **Dyfarniad** |
|---|---|
| Carnifal Gorslas 2017 | £423.25 |
| Hydref 2017 Rali Peiriannau Stêm y Ffordd a'r Rheilffordd | £750.00 |
| Gŵyl Ddefaid Llanymddyfri | £1000.00 |
| Hanner Marathon Llanelli | £2000.00 |
| Gŵyl Gerdded Llanelli 2018 (blwyddyn ariannol 2018/19) | £500.00 |

**3.2 bod Swyddogion yn adolygu dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau cyn y flwyddyn ariannol nesaf 2018/19.**

## 4. TALIADAU HAMDDEN 2017-18

Ystyriodd yr Aelod Bwrdd Gweithredol yr adroddiad ynghylch Taliadau Hamdden 2017-18 a oedd yn gofyn am gymeradwyo ffioedd manwl ar gyfer 2017-18 sy'n ffurfio rhan o'r cynllun cynhyrchu incwm ar gyfer yr adran hamdden yn 2017/18. Roedd yr adroddiad yn cynnwys codi tâl am y canlynol:-

- Gwasanaethau Diwylliannol (Lleoliadau'r Celfyddydau a'r Theatr)
- Lleoliadau Hamdden a Chwaraeon (canolfannau hamdden a phyllau nofio)
- Hamdden Awyr Agored (Parciau Gwledig, gan gynnwys y Parc Arfordirol y Mileniwm, a maes parcio Traeth Pentywyn; Canolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Taliadau Hamdden 2017-18 fel y nodir yn yr adroddiad.**

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** ____________________ **DYDDIAD** ____________________